



Asiantaeth yr  
Amgylchedd Cymru  
Environment  
Agency Wales

cyfoethogi... gwella... glanhau... adfer...  
newid... mynd i'r afael... amddiffyn... lleihau...  
crëa le gwell... dylanwadu... ysbrydoli...  
cynghori... rheoli... addasu

## Rhwydo masnachol ar llyswennod a llyswennod ifanc

Ymgynghoriad ynglŷn ag is-ddeddfau pysgodfeydd llyswennod cenedlaethol – cam 2

**Dyddiad Dechrau:** 15 Mehefin 2009

**Dyddiad Cau** 7 Medi 2009

Asiantaeth yr Amgylchedd ydym ni. Ein gwaith ni yw gofalu am eich amgylchedd chi a'i wneud yn lle gwell - i chi, ac i genedlaethau'r dyfodol.

Eich amgylchedd yw'r aer a anadlwch, y dŵr a yfwch a'r ddaear y cerddwch arni. Gan weithio gyda busnesau, y Llywodraeth a chymdeithas yn gyfanl, rydym yn gwneud eich amgylchedd yn lanach ac yn iachach.

Asiantaeth yr Amgylchedd. Allan yna, yn gwneud eich amgylchedd yn lle gwell.

**Cyhoeddwyd gan:**

Asiantaeth yr Amgylchedd  
Rio House  
Waterside Drive, Aztec West  
Almondsbury, Bristol BS32 4UD  
Ffôn: 0870 8506506  
Ebost: [enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk)  
[www.environment-agency.gov.uk](http://www.environment-agency.gov.uk)

© Asiantaeth yr Amgylchedd

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd.

# Peidiwch â gadael i'r llysywen lithro ymaith!

Yn 2002 cyflwynwyd is-ddeddfau pysgota cenedlaethol ar gyfer llyswennod, oedd i gymryd lle amrywiaeth o rai lleol. Ers hynny, mae'r dirywiad yn stociau'r llyswennod wedi dod yn bryder mawr ar draws Ewrop, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi penderfynu bod yn rhaid gweithredu. Mae'r Rheoliad Ewropeaidd sy'n ymwneud â Llyswennod, a gytunwyd gan 23 o aelod wladwriaethau ar wahân o fewn Ewrop, yn cyflwyno beth sydd angen i ni ei wneud. Newid allweddol yw fod angen i ni wella'r modd yr ydym yn rheoleiddio pysgota masnachol am llyswennod a llyswennod ifanc. Nid yw hyn yn ddewisol a bydd angen i bob gwlad roi camau ar waith a fydd yn gwella ac yn gwarchod eu poblogaethau eu hunain o llyswennod.

Mae rhai o'r newidiadau hyn ar y gweill yn barod ac ymdrinnir â nhw yn y Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir a fydd yn cryfhau pwerau ein pysgodfeydd ynglŷn â llyswennod. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori yn ddiweddar ynglŷn â Rheoliadau newydd yn ymwneud â Thramwyfeydd Pysgod, a fydd pan weithredir nhw yn caniatáu i ni wella'r modd y mae llyswennod a llyswennod ifanc yn mudo o fewn ein dyfroedd.

Ond mae angen i rai o'r newidiadau gael eu cyflwyno drwy is-ddeddfau pysgodfeydd. Y newidiadau hyn yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch yn y ddogfen hon. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn dibynnu ar ddiwygiadau i'n pwerau y disgwylir i'r Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir eu gwneud, felly ni fyddwn yn gallu eu gwneud hyd nes bo'r Mesur yn ei le. Anelwn at wneud y newidiadau hyn yn ystod tymhorau pysgota 2010 a 2011. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn dibynnu ar ddiwygiadau i'n pwerau y disgwylir i'r Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir eu gwneud, felly ni fyddwn yn gallu eu gwneud hyd nes bo'r mesur yn ei le.

Bydd yr is-ddeddfau yn dod â mwy o gyfyngiadau ar bysgota llyswennod masnachol, ond mae'n bwysig cydnabod bod hwn yn rhan o gynllun ehangach o weithredu. Bydd gwella cynefin llyswennod a gwella mynediad ato yn sylfaenol i ailadeiladu stociau llyswennod.

Rydym hefyd yn ymgynghori ynghylch is-ddeddfau newydd i ddileu'r tymor caeedig ar gyfer eogiaid dŵr llonydd a brithyll afon a rheoleiddio pysgota â gwialen. Gallwch gyrchu at yr ymgynghoriadau hyn yn : <http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/consultations/36989.aspx>.

Gyda'i gilydd mae'r rhain yn ffurfio rhan o ddiwygiad ehangach o ddeddfwriaeth pysgodfeydd a alwn yn 'Pysgod ar gyfer y Dyfodol'. Mae hwn yn ymdrin â gwelliannau i'n trefn drwyddedu, sut y rheolwn ymdrech o ran pysgota, rheoleiddio tramwyfeydd pysgod, sut y rheoleiddiwn symudiadau pysgod byw a mesurau penodol i warchod llyswennod, eogiaid a brithyll môr. Gallwch ddarganfod mwy am Pysgod ar gyfer y Dyfodol yn [www.environment-agency.gov.uk/fish](http://www.environment-agency.gov.uk/fish)

# 1. Rhagarweiniad

## Beth mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin ag ef

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin ag is-ddeddfau newydd y mae angen i ni gydymffurfio â nhw yn Rheoliad Llyswennod yr UE\*. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â thrapio ac elwa yn fasnachol ar llyswennod ym mhob cyfnod o'u hoes.

Ymdrinnir â rheolaethau newydd ynglŷn â physgota am llyswennod o fewn yr ymgynghoriad cenedlaethol ynglŷn â'r is-ddeddfau ar ddileu pysgota â gwialen.

\*Mae rheoliad y Cyngor Rhif 1100/2007 yn sefydlu mesurau i adfer stoc y llyswennod Ewropeaidd (y Rheoliad Llyswennod)

## Pam fod arnom angen is-ddeddfau newydd?

Mae gan y llysywen Ewropeaidd, *Anguilla anguilla*, ddsbarthiad helaeth drwy ddyfroedd aberol a mewndirol Ewrop. Noda amcangyfrifon ynglŷn â goroesiad y llyswennod yn ystod cam y llyswennod gwydr (y rhai bach) fod y rhain wedi gostwng ar draws Ewrop i islaw pump y cant o'r lefelau hanesyddol. Cynghora'r Cyngor Rhyngwladol ar Ymelwa ar y Moroedd fod y stoc y tu allan i ffiniau biolegol diogel ac nad yw pysgodfeydd cyfredol yn gynaliadwy (ICES, 2006).

O ganlyniad i hyn, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyflwyno Cynllun Adfer Llyswennod i geisio dychwelyd stoc llyswennod Ewropeaidd i lefelau mwy cynaliadwy. Rhaid i bob aelod wladwriaeth fod â Chynlluniau cenedlaethol i Reoli Llyswennod (EMPs) yn eu lle. Anela'r cynlluniau hyn at ganiatáu i 40 y cant o'r llyswennod arian a fyddai'n cael eu cynhyrchu o dan amodau naturiol (h.y. heb aflonyddwch dynol drwy bysgota, llygredd neu rwystrau i fudo) "ddianc" i silio ym Môr yr Iwerydd – cyfeiriwn at hyn fel y "targed dianc" yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae'r rheoliad yn crybwyll pysgota masnachol am llyswennod yn benodol fel gwella cynefin a hwyluso symudiad y llyswennod. Mae gan y DU bysgodfeydd llyswennod masnachol a rhaid iddi sicrhau bod unrhyw bysgodfa bresennol yn gynaliadwy ac y gwarchodir y llysywen i ganiatáu i stociau gael eu hadfer.

Cyflwynwyd yr is-ddeddfau cenedlaethol cyfredol ar gyfer llyswennod yn 2002, cyn bod unrhyw dystiolaeth o niferoedd yn gostwng. Oherwydd hyn, mae angen diwygiadau i'r is-ddeddfau presennol a deddfwriaeth bellach i reoli llyswennod yn fwy effeithiol a'n helpu i gydymffurfio â'r rheoliad.

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Byddai'n well gennym i chi ymateb ar-lein. Bydd hyn yn ein helpu i gasglu a chrynhoi ymatebion yn gyflym ac yn gywir. Gallwch ymateb ar-lein yn [www.environment-agency.gov.uk/research/library/consultations/consultations.aspx](http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/consultations/consultations.aspx)

Ond, os byddai'n well gennych anfon eich ymateb drwy'r post, anfonwch hwn at:

Ayesha Taylor  
Ymgynghoriad Is-ddeddfau Pysgota Llyswennod  
Asiantaeth yr Amgylchedd  
Richard Fairclough House  
Knutsford Road  
Latchford, Warrington  
Cheshire  
WA4 1HT

## **Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth**

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i helpu i roi ffurf ar is-ddeddfau newydd ynglŷn â physgodfeydd llyswennod.

Byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ôl i'r ymgynghoriad ddirwyn i ben, oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol ein bod yn cadw eich ymateb yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn cyhoeddi enwau unigolion sy'n ymateb. Byddwn yn cyhoeddi enw'r corff ar gyfer yr ymatebion hynny a wneir ar ran sefydliadau. Nodwch ar eich ymateb os gwelwch yn dda a ydych yn dymuno i ni ei drin yn gyfrinachol.

Os ymatebwch ar-lein neu os rhowch gyfeiriad e-bost i ni, byddwn yn cydnabod eich ymateb ac yn anfon crynodeb o ymatebion atoch ar ôl i'r ymgynghoriad ddirwyn i ben. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar ein gwefan.

## **Ymatebion cyfrinachol**

Gallwn gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a roddwch yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os dymunwch i ni drin eich gwybodaeth yn gyfrinachol, cofiwch o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

Oherwydd hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi fel gwybodaeth gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gynnal cyfrinachedd ym mhob amgylchiadau. Ni fydd gwadiad awtomatig ynglŷn â chyfrinachedd a gynhrychir gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried fel datganiad rhwymol ar Asiantaeth yr Amgylchedd.

## **Cod Ymarfer ynglŷn ag Ymgynghori**

Rydym yn cyflawni'r ymgynghoriad hwn yn unol â'r meini prawf a gyflwynwyd yng Nghod Ymarfer y Llywodraeth ynglŷn ag Ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwynion am y modd y cyflawnwyd yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

Cath Beaver, Cydgysylltydd Ymgynghori  
Asiantaeth yr Amgylchedd, Rio House  
Waterside Drive, Aztec West  
Almondsbury, Bryste BS32 4UD.  
Ebost: [cath.beaver@environment-agency.gov.uk](mailto:cath.beaver@environment-agency.gov.uk)

## 2. Cynlluniau Rheoli Llyswennod, Rheoliad yr UE ac ymelwa masnachol

Cynlluniau Rheoli Llyswennod yw conglaen Rheoliad Llyswennod yr UE. Fe'u seilir o amgylch rhanbarthau'r basnau afonydd (RhBA) fel y cyflwynwyd hwy yn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ac fe'u dangosir yn Atodiad 1. Mae 10 Rhanbarth Basnau Afonydd yng Nghymru a Lloegr ac un arall a rennir gyda'r Alban (y Solway/Tweed).

Cyflwynodd llywodraeth y DU ei Chynlluniau Rheoli Llyswennod i Ewrop yn Rhagfyr 2008 ac mae'n disgwyl derbyn cadarnhad ar hyn o bryd eu bod wedi eu cymeradwyo. Gallwch weld Cynlluniau Rheoli Llyswennod y DU ar wefan Defra:

<http://www.defra.gov.uk/marine/freshwater/fishman.htm#EELS>

O dan Rheoliad Llyswennod yr UE, rhaid rheoli'r holl bysgodfeydd masnachol; rhaid iddynt beidio ag amharu ar y targed dianc o 40 y cant, a rhaid i unrhyw bysgod sy'n cael eu dal gael eu datgan. Mae gofynion pellach i sicrhau bod hyd at 60 y cant o'r llyswennod sy'n cael eu dal o dan 12cm (llyswennod ifanc) yn cael eu cynnig ar gyfer ailstocio. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd angen i ni roi ystyriaeth i'r canlynol:

- lleoliad a maint unrhyw bysgodfa;
- cyfanswm y llyswennod a dynnir o ranbarth basn afon, ac yn achos llyswennod ifanc, eu cyrchfan;

I wneud hyn rhaid i ni reoleiddio ymelwa drwy'r:

- offer a'r dulliau a ganiateir i ddal llyswennod a llyswennod ifanc;
- hyd y tymor pysgota;
- gwarchod camau bywyd mewn rhai lleoliadau

Rhaid i'r DU adrodd ynglŷn â chynnydd yn erbyn y camau a restrir yn y Cynlluniau Rheoli Llyswennod yn 2012. Bydd angen i ni ddangos nad yw unrhyw ymelwa yn ein hatal rhag cyflawni'r targed cyffredinol ynglŷn â llyswennod arian yn dianc o 40 y cant, neu gall llywodraeth y DU fod yn torri'r gyfraith. Gallai hyn arwain at gau rhai neu'r cyfan o'r pysgodfeydd llyswennod.

## 3. Rheolaethau presennol

Ar hyn o bryd, mae is-ddeddfau cenedlaethol sy'n ymwneud â llyswennod yn cyflwyno rheolau ynghylch maint unrhyw bysgodfa llyswennod ifanc ac yn gwahardd pysgota am llyswennod ifanc yn unrhyw le y tu allan i'r ardaloedd hyn. Maent yn cyflwyno rheolau am y dulliau pysgota a dimensiynau'r gêr pysgota cyfreithiol am llyswennod a ganiateir. Rhaid i unrhyw un a drwyddedir i bysgota am llyswennod ddarparu ffurflen daliadau.

Ar hyn o bryd ni allwn wrthod trwydded, felly ni allwn gyfyngu ar nifer y trwyddedau a roddir mewn pysgodfa os caniateir i un barhau. Ni allwn osod unrhyw dymor pysgota na gosod amserau cau.

Mae rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r dulliau a'r offer y gellir eu defnyddio.

Mae pryder hefyd ynglŷn ag ymelwa ar lyswennod mewn lleoliadau pysgota cynhyrchiol a phoblogaidd penodol sydd yn aml islaw rhwystrau neu bwyntiau naturiol eraill y caiff y llyswennod eu trapio ynddynt.

Bu'n rhaid cyflwyno camau gorfodi anghyfartal ar gyfer pysgodfa llyswennod ifanc Sharpness Dock ar Afon Hafren. Mae dryswch a gwrthdrawiadau yn codi trwy gydol tymor y llyswennod ifanc. Mae angen is-ddeddfau penodol i helpu i reoli'r bysgodfa hon.

## 4. Rheoliadau newydd yn ymwneud â llyswennod

Mae angen cyflwyno'r pecyn llawn o reoliadau pysgota llyswennod drwy ddau lwybr:

- Bwriadwn ddiwygio ac ehangu ein his-ddeddfau presennol ynglŷn â physgota llyswennod.
- Mae angen ymdrin â rhai eraill gan un neu fwy o offerynnau statudol (OS) y gellir eu cyflwyno yn y cyfamser. Mae Defra yn datblygu'r rhain ar hyn o bryd.

Mae'n debyg y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr hyn a gynhwysir ym mhob un, yn arbennig oherwydd bod yr OS yn rhoi cyfle cynnar pwysig i gyflwyno rhai o'r mesurau pysgota llyswennod a gynhwysir fel is-ddeddfau yn y pen draw.

Ffactor anhysbys arall yw'r ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn ag unrhyw benderfyniad a wneir gan y Confensiwn dros Fasnach mewn Rhywogaethau mewn Perygl (CITES). Mae pwysau i wahardd gwerthu llyswennod y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Byddai hyn yn cael effeithiau sylweddol ar y marchnadoedd llyswennod presennol, ac yn arbennig llyswennod gwydr a'u pysgodfeydd. Mae'n hen bryd cael penderfyniad ynglŷn â hyn. Efallai bydd yn rhaid i ni ddiwygio neu gynnwys is-ddeddf i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad y gallai CITES ei hawlio.

### Is-ddeddfau arfaethedig yn ymwneud â llyswennod ifainc

#### 1. Pryd y gallwch bysgota

##### a. Tymor gwaharddedig ar gyfer llyswennod ifainc

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw amser gwaharddedig ar gyfer pysgota am llyswennod ifanc. Awgrymwn y dylai diwedd y tymor llyswennod ifanc gael ei gwtogi. Bydd hyn yn gwarchod llyswennod ifanc wrth iddynt ddechrau symud i fyny'r afon. Bydd tymor penodol hefyd yn caniatáu gwarchodaeth fwy effeithiol.

Argymhellwn gyflwyno tymor gwaharddedig ar gyfer llyswennod ifanc ac y dylai hyn redeg o 16 Ebrill i 14 Chwefror (gan ganiatáu i bysgota ddigwydd rhwng Chwefror 15 ac Ebrill 15).

##### b. Tymor gwaharddedig ar gyfer llyswennod melyn a llyswennod arian

Cam mwyaf bregus cylch bywyd y llyswen yw mudo'r llyswennod arian i lawr yr afon ac yn ôl i'r meysydd silio yn yr lwerydd. Mae angen gwarchod y stoc hon yn fwy nag yn ystod unrhyw gam arall oherwydd y llyswennod bach o'r pysgod hyn a fydd yn rhoi hwb i unrhyw recriwtio yn y dyfodol.

Bwriadwn gyflwyno tymor gwaharddedig ar gyfer llyswennod melyn ac arian a byddai hyn yn debygol o redeg o 1 Hydref i 31 Mawrth (gan ganiatáu i bysgota ddigwydd rhwng Ebrill 1 a 30 Medi). Ond rydym yn casglu gwybodaeth ar hyn o bryd i helpu i ddiffinio'r dyddiadau dechrau a diwedd mwyaf effeithiol.

Byddai hyn yn cwtogi ar ymelwa ar brif gydran rhediad y llyswennod arian ac yn caniatáu gorfodaeth fwy effeithiol.

## 2. Ffurflenni dal ar gyfer llyswennod a llyswennod ifainc

Rhaid i ni gyfrif am a rhoi adroddiad am yr holl ddaliadau o llyswennod a llyswennod ifanc fel rhan o ofynion y Cynllun Rheoli Llyswennod. Bydd yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn rhoi adroddiad am ddaliadau o llyswennod ifanc o ffurflenni a ddarperir gan orsafoedd llyswennod a awdurdodwyd dan y Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (AAHR).<sup>1</sup> Bydd yn dal angen i ddeiliaid trwyddedau rhwydi ar gyfer llyswennod ifainc gyflwyno ffurflenni blynyddol ynglŷn â daliadau i Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rhaid i ffurflenni ynglŷn â daliadau o llyswennod gael eu llenwi gan ddeiliaid trwyddedau rhwydi a'u cyflwyno i Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae is-ddeddf yn bodoli ar hyn o bryd sy'n ymdrin â hyn, ond mae cyfraddau cydymffurfio'n wael.

Argymhellwn is-ddeddf newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad trwydded gyflwyno ffurflen ynglŷn â daliadau llyswennod neu llyswennod ifainc bob blwyddyn cyn y gellir cyhoeddi trwydded newydd.

## 3. Ble gallwch bysgota

### a. Lleoliad a maint y bysgodfa llyswennod

Argymhellwn is-ddeddfau newydd i osod ffiniau daearyddol ar bysgodfeydd llyswennod melyn ac arian presennol, a gwahardd ymelwa pellach mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw bysgodfa fasnachol ar hyn o bryd. (Mae is-ddeddfau tebyg yn bodoli'n barod sy'n ymdrin â hyn ar gyfer llyswennod ifainc).

I gefnogi hyn, mae angen i ni dynhau trefniadau trwyddedu presennol ar gyfer yr holl llyswennod a diwygio'r drwydded i adlewyrchu ffiniau'r rhanbarthau basnau afonydd ac nid ffiniau rhanbarthol. Mae angen i drwyddedau hefyd nodi'n gliriach lle gall llyswennod gael eu dal a lle na allant gael eu dal. Ar hyn o bryd gellir eu dal yn unrhyw le o fewn y rhanbarth perthnasol a enwir.

### b. Atal ehangu'r bysgodfa o llyswennod arian

Mae gan lawer o afonydd etifeddiaeth o raciau llyswennod.

Bwriadwn gyfyngu ar yr ymelwa presennol ar llyswennod arian i'r lleoliadau (a'r strwythurau) hynny a drwyddedir neu a awdurdodir ar hyn o bryd i ddal llyswennod.

Bydd hyn yn atal unrhyw bysgodfeydd ychwanegol rhag datblygu, er y gall pysgota i bwrpasau gwyddonol ddal i ddiwydd.

### c. Pysgota am llyswennod ifainc ger rhwystrau

Argymhellwn is-ddeddf i atal gorymelwa ar llyswennod ifainc mewn safleoedd poblogaidd.

Achosir hyn fel arfer wrth i llyswennod ifainc ymgasglu o dan goredau, llifddorau a fflapiau'r llanw mewn mannau arbennig yng nghylch y llanw, yn ogystal â ger trapiau monitro penodedig neu lwybrau pysgod.

Cyfeiriai is-ddeddfau presennol at hyn, ond mae'r geiriad ar hyn o bryd yn drysu pysgotwyr a staff gorfodi. Bydd yr is-ddeddfau yn cynnwys rhestr o strwythurau y bydd pysgota am llyswennod ifainc yn cael ei wahardd islaw iddynt am bellter penodedig, yn ogystal â'r arwynebedd cyffredinol lle byddai pysgota yn anghyfreithiol.

<sup>1</sup> Mae AAHR yn trawsddodi gofynion Cyfarwydddeb y Cyngor 2006/88/GE (Cyfarwydddeb Iechyd Anifeiliaid Dyfrol) i ddeddf y DU.

## 4. Sut y gallwch bysgota

### a. Offer a dulliau

Mae'r Tabl 1 canlynol yn rhestru'r ychwanegiadau a'r esboniadau arfaethedig i'r is-ddeddfau cenedlaethol cyfredol.

<b>Tabl 1 – Diwygiadau arfaethedig i is-ddeddfau ynglŷn ag offer/dulliau pysgota</b>	
<b>Pwnc</b>	<b>Gofynion arfaethedig ynglŷn â'r is-ddeddfau</b>
<b>Rhwydi trochi am lyswennod ifainc</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r maint cyfredol yn dderbyniol</li><li>• Mae problemau ynglŷn â hyd yr handlen a chlymu'r rhwyd i lan yr afon neu wely'r afon.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfyngu ar handleni'r rhwydi i 2.5 metr neu lai. Caniateir un handlen yn unig.</li><li>• Dim arnofion, cadwyni nac angorau i gael eu clymu.</li><li>• Rhaid gweithredu hyn â llaw bob amser.</li><li>• Dim ond deiliad y drwydded all ei defnyddio.</li></ul>
<b>Pysgota am lyswennod ifainc yn Sharpness Docks</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae angen llawer o orfodaeth yn y lleoliad hwn ar hyn o bryd.</li><li>• Gellir gwneud hyn drwy amrywio dull y pysgota yn y lleoliad penodol hwn.</li><li>• Nid oes unrhyw reswm amgylcheddol am beidio â chaniatáu'r newid hwn.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• O fewn Sharpness Dock (rhoddir lleoliadau penodol), gellir defnyddio rhwydi gollwng o feintiau penodol ar gyfer llyswennod ifainc.</li><li>• Byddai angen trwydded benodol i ddefnyddio'r dull hwn yn y lleoliad hwn. Os dymuna pysgotwr bysgota mewn man arall, byddai arno angen trwydded arall.</li><li>• Byddai amserau caeedig ac ati yr un fath ag ar gyfer pob math arall o bysgota am lyswennod ifainc.</li></ul>

### b. Gwahardd treillio am lyswennod

Ar hyn o bryd mae is-ddeddfau yn caniatáu treillio am lyswennod. Ni chyhoeddwyd unrhyw drwyddedau i dreillio am dros bum mlynedd.

Bwriadwn wahardd treillio am lyswennod a llyswennod ifainc o dan is-ddeddfau newydd.

## Rheoliadau newydd eraill

**Cyflwynir ystod o reoliadau newydd eraill yr un pryd ag is-ddeddfau llyswennod ifainc. Rydym wedi rhestru'r rhain isod.**

### 1. Cyfyngu ar drwyddedau am bysgota am lyswennod a llyswennod ifainc

O dan y Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir ymestynnir ein pwerau i wneud gorchmynion i gyfyngu ar rwydi (NLOs). Yn ogystal â bod yn berthnasol ar gyfer pysgodfeydd eogiaid a brithyll môr yn unig, byddant hefyd yn berthnasol i unrhyw bysgodfeydd rhwydi am lyswennod. Noder: Er ein bod yn gwneud NLOs, mae'n rhaid iddynt gael eu cadarnhau gan y Gweinidog, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus). Mae'n bosib y bydd Defra yn dewis rhoi'r pŵer hwn i ni yn gynharach drwy'r offeryn statudol arfaethedig. Yna bydd hyn yn caniatáu i ni gyfyngu ar ac o bosib cwtogi ar drwyddedau ac ymelwa.

Y dewis a ffafirir gennym yw cyfyngu'r bysgodfa i lefelau presennol. I atal cynnydd sydyn yn yr ymgeiswyr am drwydded, efallai bydd yn rhaid i ni seilio hyn ar y rhai hynny sydd wedi bod â thrwydded am y tair blynedd flaenorol neu fwy.

## **2. Orlhain daliadau o lyswennod ifainc**

I gydymffurfio â Rheoliad Llyswennod yr UE, rhaid i ni sicrhau erbyn 2013 bod 60 y cant o'r holl lyswennod ifainc sy'n cael eu dal ar gael ar gyfer ailstocio. Gallai'r gyrchfan fod yn ddalgylch neu aelod wladwriaeth arall. I wneud hynny, bydd angen i ni allu olrhain pa lyswennod ifainc sydd wedi eu dal ymhle a phryd.

Darperir hyn gan y Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (AAHR). Rhaid awdurdodi'r holl orsafoedd llyswennod ifainc, oherwydd eu bod yn ymdrin â physgod byw. Fel un o amodau'r awdurdodiad hwn, bydd angen i orsafoedd llyswennod ifainc gadw a darparu'r cofnodion sy'n angenrheidiol i allu olrhain y pysgod.

O dan reoliadau'r UE a CITES, rhaid i lyswennod gael eu dal yn gyfreithlon. Mae'r Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir yn diwygio trosedd adran 32 Deddf Eogiaid gyfredol 1986 "trin eogiaid mewn amgylchiadau amheus". Bydd y drosedd yn cael ei ehangu i ymdrin â phob pysgod, gan gynnwys llyswennod, a fydd yn ein helpu ni i sicrhau ein bod yn bodloni'r gofyniad hwn gan yr UE. Os bydd angen hyn cyn y daw'r Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir i rym, fe'i cynhwysir yn yr offeryn statudol cynharach.

## **3. Tramwyfeydd i lyswennod a llyswennod ifainc**

Mae Defra eisoes wedi ymgynghori ynglŷn â Rheoliadau newydd ynglŷn â Thramwyfeydd Pysgod a disgwylir i'r rhain gael eu cyflwyno yn fuan. Os cânt eu cymeradwyo, bydd y rheoliadau newydd hyn yn rhoi pwerau i ni ei gwneud yn ofynnol i osod tramwyfeydd i lyswennod a llyswennod ifainc wrth rwystrau sy'n eu hatal. Bydd y rheoliadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i sgrinio llyswennod a llyswennod ifainc yn effeithiol wrth fannau lle cymerir dŵr o afonydd.

# **7. Camau nesaf**

Rydym yn cyhoeddi'r argymhellion hyn i ymgynghori yn eu cylch ym mis Mehefin 2009 ac rydym yn gofyn am eich sylwadau a'ch adborth. Wedi i'r Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir ddod i rym yn hydref 2009, byddwn yn hysbysebu'r is-ddeddfau arfaethedig. Gellir gwneud gwrthwynebiadau i'r rhain yn ysgrifenedig y pryd hynny. Yn dilyn hyn, disgwylwn gyflwyno'r is-ddeddfau newydd yn gynnar yn 2010.

Yn ystod y cyfnod cyn hynny, byddwn yn parhau i wneud diwygiadau wrth i ni dderbyn gwybodaeth newydd, fel goblygiad unrhyw benderfyniad gan CITES a chadarnhad o'r Cynlluniau Rheoli Llyswennod. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i benderfynu ar y ffordd orau o gyflwyno'r mesurau gwahanol, boed hynny drwy offeryn statudol, is-ddeddf neu lwybr arall.

Mae maint y newid rheoleiddiol a argymhellir yn sylweddol. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth a'ch sylwadau yn erbyn y cwestiynau canlynol:

## 8. Eich ymateb chi

Gallwch ymateb ar-lein i'r ymgynghoriad hwn yn –

[www.environment-agency.gov.uk/research/library/consultations/consultations.aspx](http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/consultations/consultations.aspx).

Os gwell gennych ymateb drwy'r post, llanwch y ffurflen hon a gyrrwch hi at –

Ayesha Taylor  
Eel Fishing Byelaws Consultation  
Environment Agency  
Richard Fairclough House  
Knutsford Road  
Latchford, Warrington  
Cheshire  
WA4 1HT

### Manylion personol

<b>Enw –</b>	
<b>Corff (os yn berthnasol) –</b>	
<b>Cyfeiriad –</b>	
<b>E-bost –</b>	
<b>Maes eich diddordeb chi* –</b>	<b>Ticiwch un yn unig</b>
Rhwydo llysywennod	
Rhwydo llysywennod ifainc	
Cyfanwerthwr/adwerthwr llysywennod/llysywennod ifainc	
Genweirio	
Corff pysgodfeydd	
Corff cadwraeth	
Corff Anllywodraethol arall	
Aelod o'r cyhoedd cyffredinol	
Arall (dywedwch beth yn union)	

\*Bydd hwn o gymorth inni ddadansoddi'r ymateb.

<b>1</b>	<b>Pryd y gallwch bysgota</b>	
1.a	A ydych yn cefnogi cyflwyno tymor gwaharddedig ar gyfer <b>llyswennod ifainc</b>	Ydw/Nac ydw
	A yw'r dyddiadau a awgrymwyd ar gyfer tymor gwaharddedig ar gyfer <b>llyswennod ifainc</b> yn ymddangos yn rhesymol?	Ydynt/Nac ydynt
	Eglurwch eich ateb.	
1.b	Ydych chi'n cefnogi cyflwyno tymor gwaharddedig ar gyfer <b>llyswennod melyn ac arian?</b>	Ydw/Nac ydw
	A yw'r dyddiadau a awgrymwyd ar gyfer tymor gwaharddedig ar gyfer <b>llyswennod melyn ac arian</b> yn ymddangos yn rhesymol?	Ydynt/Nac ydynt
	Eglurwch eich ateb.	
<b>2.</b>	<b>Ffurflenni daliadau</b>	
2.a	Ydych chi'n cytuno y dylid cadw trwydded llyswennod neu llyswennod ifainc yn ôl oddi wrth ddeiliaid trwyddedau sy'n methu â darparu ffurflen daliadau blynyddoedd blaenorol?	Ydw/Nac ydw
	Eglurwch eich ateb.	
<b>3</b>	<b>Ble gallwch bysgota</b>	
3.a	A ydych yn cytuno y dylai pysgodfa'r <b>llyswennod melyn ac arian</b> gael ei chyfyngu i'w lleoliad a'i maint presennol?	Ydw/Nac ydw
	Eglurwch eich ateb.	

3.b	A ydych yn cytuno y dylai'r bysgodfa <b>llyswennod arian</b> gael ei chyfyngu i safleoedd/strwythurau presennol?	Ydw/Nac ydw
Eglurwch eich ateb.		
3.c	Ydych chi'n cytuno y dylid gwahardd pysgota am llyswennod ifanc islaw rhai coredu, llifddorau a rhwystrau eraill?	Ydw/Nac ydw
Eglurwch eich ateb.		
<b>4 Sut y gallwch bysgota</b>		
4.a	Ydych chi'n cytuno gyda'r cyfyngiadau ar offer a dull a argymhellir ar gyfer pysgota am llyswennod ifainc (gweler Tabl 1 uchod)?	Ydw/Nac ydw
Eglurwch eich ateb.		
4.b	A ydych yn cytuno gyda gwaharddiad llwyr ar dreillio am llyswennod?	Ydw/Nac ydw
Eglurwch eich ateb.		
<b>5 Arall</b>		
5.a	A oes mesurau ychwanegol neu wahanol y teimlwch y dylem ymchwilio iddynt?	Oes/Nac oes
Disgrifiwch  Parhewch ar dudalen ar wahân os oes raid.		

Cont.



**Hoffech chi ddarganfod mwy  
amdanom ni, neu am eich  
amgylchedd?**

**Yna galwch ni ar  
08708 506 506\*** (Llun-Gwener 8-6)

**e-bost  
enquiries@environment-  
agency.gov.uk**

**neu ymwelwch â'n gwefan  
[www.environment-agency.gov.uk](http://www.environment-agency.gov.uk)**

**Ilinell ddigwyddiadau 0800 80 70 60** (24  
awr)

**Ilinell llifogydd 0845 988 1188**

**\* Mae galwadau'n costio'n fras: 8c plws 6c y funud (Ilinell tir safonol).  
Nodwch y bydd y taliadau yn amrywio ar draws darparwyr ffôn**



Yr amgylchedd yn gyntaf: Argreffir y cyhoeddiad hwn ar bapur wedi ei wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd eisoes. Defnyddir isgynhyrchion gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrtaith, gwneud sment a chynhyrchu trydan.



Asiantaeth yr  
Amgylchedd Cymru  
Environment  
Agency Wales

enhancing... improving... cleaning... restoring...  
changing... tackling... protecting... reducing...  
create a better place... influencing... inspiring...  
advising... managing... adapting...

# Commercial netting of eels and elvers

National eel fisheries byelaw consultation – phase 2

**Starting Date:** 15 June 2009

**Closing Date:** 07 September 2009

Reference number/code [Sector Code]

We are the Environment Agency. It's our job to look after your environment and make it **a better place** - for you, and for future generations.

